

## Pwyllgor Diwylliant - CC-3-02(p.4)

**Dyddiad:** 23 Ionawr 2002  
**Amser:** 9.15am -12.45pm  
**Lleoliad:** Canolfan Gelfyddydau'r Miwni, Pontypridd

### **Datganiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol – Mr Roy Thomas**

1) Os ydym am lunio polisi iaith effeithiol fe ddylid rhoi rhywfaint o sylw i rai egwyddorion economaidd sylfaenol. Mae hanfodion dadansoddiad economaidd o gwestiynau o'r fath yn rhai digon syml. Y man cychwyn yw bod adnoddau'n brin. Hynny'n golygu nad oes modd ateb pob gofyn, a bod rhaid gwneud dewisiadau. Ymhlyg ym mhob dewis y mae cost ymwad (opportunity cost), sef y budd a ddeilliai o ail-gyfeirio adnoddau at ddibenion amgen. Y dewisiadau perthnasol o safbwynt polisi yw dewisiadau ffiniol. Ac yn olaf, y perspectif priodol wrth lunio polisi yw perspectif y gymdeithas gyfan.

2) Trof yn gyntaf, at y broblem ganolog, sef prinder adnoddau.

Un peth yn anad dim sy'n codi gwrychyn ymgyrchwyr dros y Gymraeg yw honiadau nad oes digon o arian yn y coffrau cyhoeddus i fodloni'u gofynion. Ac ystyried y £9 biliwn sydd ar gael i'r Cynulliad onid diferyn yn y môr yw'r arian sy'n cael ei gwario ar y Gymraeg? Sut y gall unrhyw un honni na ellir fforddio rhagor pan fod miliynau yn cael eu gwastraffu ar gynlluniau diwerth mewn meysydd eraill? Ac onid yw adnoddau'n ymddangos yn wyrthiol, bron, pan fydd llywodraeth y dydd yn dymuno'u gwario ar rywbeth sy'n agos at ei chalon?

3) Y gwir amdani, wrth gwrs, yw nad mudiadau iaith yn unig sy'n dal mai esgus yw son am brinder arian. Defnyddir dadleuon tebyg gan bob mudiad ymgyrchu, pob un fel ei gilydd yn ymbil am fwy o adnoddau a phob un yr un mor argyhoeddiedig bod yr hyn y mae nhw'n gofyn amdano yn haeddiannol, rhesymol - ac yn fforddiadwy. Nid dadlau yr ydwyf na ddylid pwysu am ragor o adnoddau i hyrwyddo'r Gymraeg. Ond afraid dweud na fydd byth ddigon o arian i ateb pob gofyn. Dylid hefyd bwysleisio nad son am bunnoedd neu euro y mae'r economegydd wrth gyfeirio at brinder o arian, ond yn benodol at yr adnoddau y gellir eu prynu gydag arian - a'r adnoddau hynny, yn y cyswllt hwn, yn cynnwys y talentau prin sydd ar gael i gynnal holl agweddau o'n Cymreictod.

4) Y perygl o wrthod derbyn bod adnoddau'n brin yw y gwrthodir hefyd gydnabod nad oes modd gwneud popeth, a bod rhaid felly dewis pa bethau y dylid eu gwneud a pha bethau na ddylid eu gwneud. Gall peidio â chydabod bod adnoddau'n brin arwain hefyd at fabwysiadu egwyddorion ac amcanion anghyraeddadwy ac anghywir, e.e. dwyieithrwydd lawn yn achos y Cynulliad ( neu cwrdd â holl ofynion iechyd y boblogaeth pan sefydlwyd yr NHS yn 1948 ). A derbyn bod adnoddau'n brin, y nod cywir y dylid anelu ato yw sicrhau y defnydd gorau o ba lefel bynnag o adnoddau sydd ar gael. Y perygl o osod nod anghyraeddadwy yw nid yn unig y bydd disgwyliadau yn cael eu siomi ond y gwneir dewisiadau anghywir gan arwain at wastraffu adnoddau.

5) Os ydym am sicrhau y budd mwyaf posibl o'r adnoddau sydd ar gael i hyrwyddo'r Gymraeg y mae'n rhaid, wrth wneud dewisiadau, roi ystyriaeth nid yn unig i'r budd a ddeillia o wahanol weithgareddau ond hefyd i'r gost o'u cynnal. Hyn eto, yn ddi-feth, yn codi gwrychyn mudiadau ymgyrchu. Sut y gellir son am gostau pan mae dyfodol yr iaith yn y fantol? Dichon fod amhorodrwydd ymgyrchwyr iaith ac eraill i drafod costau yn deillio i ryw raddau o ddiffyg dealltwriaeth o'r hyn a olygir wrth gostau mewn Economeg. Ystyr 'cost' mewn Economeg yw cost ymwad, a phan sonnir, er enghraifft, am y gost o gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg, yr hyn a olygir yw'r budd a ddeilliai o ryddhau yr adnoddau a ddefnyddir i'w cyfieithu, ar gyfer dibenion eraill.

6) Cefais fy nghyhuddo gan Berwyn Prys Jones, Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, mewn erthygl yn y cylchgrawn Barn, o naifrwydd llwyr wrth dybio mai effaith peidio â gwario ar gyfieithu fyddai ail-gyfeirio adnoddau i gyflawni dibenion 'amgen'. Nid yw'r drefn ariannu sydd ohoni, yn ôl Mr Jones, yn ddigon call i gymryd unrhyw ddibenion 'amgen' i ystyriaeth. Gadawaf i aelodau'r Pwyllgor benderfynu a oes sail i'r honiadau hyn.

7) Egwyddor arall sy'n ganolog i Economeg, ac sydd wrth wraidd llawer o'r camddealltwriaeth ar ran y cyhoedd a gwleidyddion o'r ffordd y mae economegwyr yn ymresymu, yw'r Egwyddor Ffiniol.

Nid oes dadl bellach y gall cyhoeddi deunyddiau yn y Gymraeg:

- gyfleu gwybodaeth i rai siaradwyr Cymraeg yn fwy effeithiol nag y gellid ei wneud yn Saesneg;
- arwain at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn pwyllgor a chyfarfod;
- gyfrannu tuag at greu gweithlu sy'n medru gweithredu yn ddwyieithog;
- ac effeithio'n gadarnhaol ar ganfyddiadau'r boblogaeth o'r Gymraeg.

Hyn oll yn golygu bod gwerth diamheuol mewn darparu deunyddiau dwyieithog.

8) Ond nid yw gosodiadau o'r fath ( a gosodiadau tebyg mewn meysydd eraill, e.e. 'Y mae angen ein prifysgolion ar Brydain!' ) o'r help lleiaf wrth lunio polisi. Y

cwestiwn perthnasol o safbwynt polisi yw nid a ddylid darparu deunyddiau dwyieithog, ond pa mor gynhwysfawr y dylai'r ddarpariaeth fod. I ateb y cwestiwn hwn, yr hyn y mae'n rhaid ei ofyn yw nid beth yw'r gost a'r budd o ddarparu deunyddiau Cymraeg, ond beth fyddai'r gost a'r budd ffiniol ( neu ychwanegol ) o neilltuo rhagor o adnoddau at y gwaith hwn. Neu, wrth gwrs, beth fyddai'r gost a'r budd ffiniol a arbedid, ac a gollid, pe gyfyngid ar yr adnoddau hyn.

9) O holi amryw o Gymry Cymraeg sy'n gweithio yn y byd iechyd, mae'n ymddangos mai nifer fach iawn sy'n darllen y fersiynau Cymraeg o ddogfennau dwyieithog. Er bod safon y cyfieithiadau yn y maes hwn at ei gilydd yn ddigon derbynol, mae darnau o'r fersiynau Cymraeg o'r dogfennau hynny sy'n lled dechnegol eu cynnwys yn aml yn gwbl anddarllenadwy ac yn annealladwy. Hynny gan amlaf gan fod y rhai a fu'n gyfrifol am eu cyfieithu yn amlwg yn anghyfarwydd â'r pwnc, a heb cael cyfle i ymgynghori gydag awduron y testynau gwreiddiol. Nid oes rhyfedd felly fod cyn lleied yn straffaglio i'w darllen. A phryd y cyhoeddir y fersiynau Cymraeg ar wahân, yn arbennig os ydynt yn ymddangos ymhell y tu ôl i'r rhai Saesneg, nid oes neb yn aml yn eu gweld heb son am eu darllen, a hynny gan nad oes neb yn gofyn amdanynt a neb yn gwybod beth i wneud â nhw.

10) Go brin y gellid dadlau y byddai llawer i'w golli wrth beidio a chynhyrchu deunyddiau o'r fath. Go brin hefyd y byddai angen cynnal dadansoddiad cost a budd llawn er mwyn dangos bod gormod o'r adnoddau sydd ar gael i gynnal y Gymraeg yn cael eu llyncu gan y diwydiant cyfieithu, yn arbennig o ystyried y prinder sydd o athrawon Cymraeg ail-iaith, ac mai £600,000 yn unig sydd ar gael i'r Cyngor Llyfrau tuag at gyhoeddi llyfrau a chylchgronau poblogaidd. Mewn llythyr at Y Cymro tua flwyddyn neu ddwy yn ôl, fe rybuddiodd John Albert Evans ein bod yn prysur redeg allan o bobl yng Nghymru i ymateb i'r holl alwadau sydd ar yr iaith. Mae'r llythyr yn cyfeirio'n benodol at yr adnoddau a ddefnyddir wrth gyfieithu deunyddiau na fydd neb yn debyg o'u darllen, ac mae'n mynegi pryder y gallai Deddf yr Iaith ac anghenion cwbl ddwyieithog y Cynulliad fod yn ergyd farwol i ddyfodol y Gymraeg, A'r llythyr ymlaen i'n hannog i ystyried yn ddwys flaenoriaethu'n ofalus. Ni allaf lai na datgan fy nghefnogaeth lwyr i'r neges honno.

11) Un o'r dadleuon a ddefnyddir yn erbyn blaenoriaethu, a mabwysiadu polisi mwy dewisol tuag at gyfieithu, yw y byddai'n amhosibl i benderfynu ble i dynnu'r llinell. Dadleua eraill y byddai cefnu ar yr egwyddor o ddwyieithrwydd lawn yn rhoi'r esgus i bob corff a sefydliad ledled Cymru fod creu fersiwn Cymraeg yn rhy costus ac nad oes digon yn ei ddefnyddio. Bach iawn o rym sydd i'r dadleuon hyn. Mae gwybod ble i dynnu'r llinell bob amser yn anodd, ond y mae hon yn broblem gyffredin ymhob maes, ac un y mae'n rhaid i'r rhan fwyaf ohonom ei wynebu o ddydd i ddydd. Ac nid ydym yn agos mewn gwirionedd at wireddu'r egwyddor o ddwyieithrwydd lawn. Y gwir ydyw fod dethol a dewis yn digwydd yn barod. Yr hyn sydd ei angen yw sefydlu canllawiau clir a phendant y disgwyliad i bob corff cyhoeddus eu gweithredu. Gellid tybio y byddai'r canllawiau yn cyfeirio at ffactorau fel gweladwyedd, y nifer o ddarllenwyr tebygol, ac o bosibl, yn gwahaniaethu rhwng dogfennau mewnol a rhai a anelir at y cyhoedd. Ond yn sail i'r canllawiau fyddai asesiad o'r budd i'r Gymraeg a'r gost ymwad - y budd y gellid

ei sicrhau trwy defnyddio adnoddau ar gyfer dibenion eraill.

12) Hoffwn dynnu sylw at un pwynt arall ynglyn a chyfieithu. Rwyn teimlo fod llawer o bethau yn cael eu cyfieithu heb fod angen eu cyfieithu, yn eu plith lythyrau Cymraeg a anfonir i swyddfeydd y llywodraeth yng Nghymru, hyd yn oed swyddfeydd yn yr ardaloedd Cymreiciaf. Bu llawer o son am normaleiddo'r Gymraeg, ond prin y gallai unrhyw un honni fod y sefyllfa hon yn un normal! Rwyn teimlo hefyd y dylid dod o hyd i arholwyr Cymraeg eu hiaith sy'n gymwys i farcio sgriptiau arholiad y myfyrwyr hynny sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg ond yn dewis cael eu asesu drwy'r Gymraeg, yn hytrach na chael cyfieithydd i drosi'r sgriptiau i'r Saesneg, tasg sydd, o'r hyn yr ydwyf wedi'i weld, yn gwbl amhosibl i unrhyw gyfieithydd i'w gyflawni. Ac yn olaf, cytunaf yn llwyr â Mr.Ustus Roderick Evans fod tystion a diffynyddion sy'n gorfod cyflwyno tystiolaeth i reithgor drwy gyfrwng cyfieithydd o dan fantais sylfaenol ac y dylid mynd ati i ystyried rhoi'r hawl i gael rheithgorau cwbl ddwyieithog yn llysoedd Cymru pan fo galw am hynny.

13) Y perspectif a fabwysiedir mewn dadansoddiadau cost a budd yw perspectif y gymdeithas gyfan. Hynny'n golygu mai'r gost a ystyrir yn berthnasol wrth lunio polisi cyhoeddus yw'r gost i bob rhan o'r gymdeithas - ac nid y gost i'r trethdalwr neu'r gost i'r Cynulliad yn unig. Bu galw cynyddol am ymestyn hawliau Cymry Cymraeg, yn arbennig yn eu hymwneud â'r sector breifat, ac yn sicr, fe ellid dadlau fod amgylchiadau wedi newid ers i'r Ddeddf Iaith ddod i rym, a'i fod yn hen bryd ei hadolygu. Ond mae ymestyn hawliau unrhyw garfan o'r gymdeithas yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar garfannau eraill, ac yn ychwanegu at eu costau. A chymryd mai perspectif y gymdeithas gyfan yw'r perspectif priodol wrth ymdrin â materion o'r fath yna mae'r ffactorau hyn yn rhai y dylid eu pwysu a'u mesur cyn mynd ati i gyflwyno newidiadau i'r Ddeddf. Mae tuedd i ymgyrchwyr dros ddeddf iaith newydd wfftio unrhyw gyfeiriad at yr hyn sy'n 'ymarferol a rhesymol'. Ond o'r hyn yr wyf wedi'i ddarllen, mae cyfeiriadau at yr hyn sy'n ymarferol ac yn rhesymol yn eithaf cyffredin mewn deddfwriaeth yn ymwneud â hawliau dynol, ac fe gaiff 'rhesymol' ei ddehongli fel arfer yn nhermau cost a budd i gymdeithas.

14) Mewn rhannau helaeth o Gymru erbyn hyn, gwaetha'r modd, iaith rwydweithiau yn hytrach na iaith gymuned yw'r Gymraeg. Yr hyn sy'n cynnal y rhwydweithiau hyn i raddau helaeth iawn yw'r teleffôn. Nid yw'n syndod felly fod Cymry Cymraeg yn llawer yn fwy parod i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael dros y ffôn nag ydynt i lenwi ffurflenni Cymraeg. Er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i hyrwyddo'r Gymraeg y mae'n hanfodol bwysig i roi sylw i'r hyn sy'n gweithio, ac adeiladu ar hynny. Dylid croeshawu felly ymdrechion Bwrdd yr Iaith i dynnu sylw'r cyhoedd at yr ystod o wasanaethau Cymraeg sydd bellach ar gael iddynt dros y ffôn. Ond fe ddylai'r Bwrdd yn fy nhyb i fynd llawer ymhellach. Yn gyntaf ôll dylid mynnu bod pob corff cyhoeddus sy'n delio yn rheolaidd â'r cyhoedd, nad ydynt yn barod yn cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog, yn sefydlu llinell ffôn pwrpasol ar gyfer Cymry Cymraeg ( neu'n rhoi dewis iaith i'w galwyr drwy bwysu botwm ar eu ffôn ). Yna, fe ddylid hysbysu pob cwmni yn y sector breifat y bydd y Bwrdd, mewn cydweithrediad â BT, yn cyhoeddi yn

flynyddol Lyfr Ffôn a ddosberthir i holl gartrefi Cymru yn cynnwys rhifau pob corff a chwmni sy'n cynnig gwasanaeth o'r fath. Mae'n anhebyg y byddai llawer o gwmnïau am golli cyfle o'r fath. Yn ogystal, ni fyddai angen rhyw lawer o adnoddau i weithred'r cynllun. Mewn sefydliad cymhleth fel ymddiriedolaeth iechyd mi fyddai'n rhaid penodi unigolyn neu unigolion profiadol i ddelio gydag ymholiadau Cymraeg, ond os na fyddai nifer fawr o alwadau, gallent rannu'r gwaith hwn gyda dyletswyddau eraill.

15).Un nodyn byr i orffen. Rwyf wedi canolbwyntio uchod ar yr hyn y gall ddadansoddiad economaidd gynnig wrth lunio polisi iaith. Nid wyf wedi cyfeirio o gwbl at ddylanwad grymoedd economaidd ar ddyfodol yr iaith. Hoffwn nodi, fodd bynnag, fy mod yn rhannu y pryderon a fynegwyd gan yr Arglwydd Gwilym Prys Davies y gall parhad y mewnlifiad brofi yn ergyd farwol i'r Gymraeg fel iaith gymunedol ymhob rhan o Gymru oni ellir dyfeisio rhyw ffordd o'i reoli. Awgrymais yn gynharach nad wyf yn derbyn fod hawliau diymwad gan Gymry Cymraeg i dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddadl y dylid rhoi ystyriaeth i'r gost a'r budd i gymdeithas wrth lunio a gweithredu polisiau cyhoeddus yr un mor ddilys wrth drafod hawliau mewnfudwyr. A chymryd fod diogelu cymunedau Cymraeg traddodiadol yn nod polisi dilys, ac y byddai rheoli'r mewnlifiad yn hyrwyddo'r nod polisi hwnnw, yna fe ddylid pwysu a mesur y budd i gymdeithas o fabwysiadu camau ymarferol i ddylanwadu ar symudiadau mewn poblogaeth yn erbyn unrhyw golledion a ddeilliai o gyfyngu hawliau'r unigolyn.

Roy Thomas